**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes

23 Tachwedd 2022

Annwyl Lywydd

Rheol Sefydlog 30A – cydsyniad mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU

Yn ein cyfarfod ar 14 Tachwedd 2022, buom yn ystyried y memorandwm cydsyniad offeryn statudol cyntaf a osodwyd yn y chweched Senedd, mewn perthynas â Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022. Gwnaethom nodi hefyd, mewn llythyr dyddiedig 21 Hydref 2022 at fy Mhwyllgor i ac i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn perthynas â'r memorandwm cydsyniad offeryn statudol, fod y Gweinidog Newid Hinsawdd yn datgan bod Rheol Sefydlog 30A "yn darparu y caiff unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr Offeryn Statudol hwn". Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn nodi na fyddai'n ceisio cychwyn dadl o'r fath.

Nid yw'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn egluro ei rhesymeg dros beidio â cheisio dadl ar y memorandwm cydsyniad offeryn statudol penodol hwn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r datganiad a ganlyn a wnaed gan y Prif Weinidog mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd, dyddiedig 4 Tachwedd 2020:

> *"Daeth i'r amlwg mai ychydig iawn o awydd sydd am ddadl fanwl yn y siambr ar gyfer mesurau sydd fel arfer yn dechnegol eu natur. O ganlyniad, a hefyd oherwydd bod amser y cyfarfod llawn yn brin, nid ydym bellach yn bwriadu cyflwyno cynigion o'r fath [ynghylch memoranda cydsyniad offeryn statudol] ar gyfer dadl.*

*Fe fyddwn yn ceisio cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog a gosod Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol pan fo angen.  Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno cynnig y llywodraeth os yw'n briodol (e.e. ar gyfer prif faterion neu faterion newydd a dadleuol o bosib).  Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i wneud penderfyniadau o'r fath.  Wrth gwrs, bydd croeso i unrhyw aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig yn ceisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol mewn offeryn statudol perthnasol."*

Nodwn fod y Pwyllgor a'n rhagflaenodd wedi ysgrifennu atoch ynghylch hyn ar 25 Mawrth 2019 a 20 Tachwedd 2020 i leisio pryderon am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â memoranda cydsyniad offeryn statudol a'i dehongliad o Reol Sefydlog 30A, o ystyried ei heffaith ar waith craffu gan y Senedd. Nododd fod hyn wedi bod yn "fater hirsefydlog i'r Pwyllgor."

Nodwn eich ymateb ar 7 Mai 2019 i'n llythyr cyntaf ar 25 Mawrth 2019 yn nodi eich dehongliad o Reol Sefydlog 30A fel a ganlyn:

*"Er nad yw Rheol Sefydlog 29 na 30A yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth, nac unrhyw un arall, gyflwyno cynnig cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU,* ***yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y Cynulliad i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath.  Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb sôn am ei basio – gan y Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y Cynulliad wedi rhoi ei gydsyniad*** *i'r ddarpariaeth honno [ychwanegwyd pwyslais].  Byddai'n peri pryder i mi pe bai Senedd y DU yn bwrw ymlaen i ddeddfu o dan yr amgylchiadau hynny, gan y byddai'n ymddangos imi yn groes i'r confensiwn o beidio â deddfu heb gydsyniad datganedig y Cynulliad.*

*...cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013 ... Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw.* ***Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad*** *i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi [ychwanegwyd pwyslais]."*

Rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru. Yn sgil eich dehongliad o'r Rheolau Sefydlog, mae'n destun pryder bod Llywodraeth Cymru

yn parhau i gyfyngu ar allu'r Senedd i roi barn ynghylch a ddylai is-ddeddfwriaeth a wneir gan Senedd y DU ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd na ddylai'r cyfrifoldeb fod ar Aelodau unigol o'r Senedd i gyflwyno cynigion ar gyfer dadl ar femoranda cydsyniad offeryn statudol – cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ceisio cydsyniad y Senedd i'w phenderfyniadau i ganiatáu deddfwriaeth i Gymru gael ei gwneud yn y ffordd hon.

Gan fod Llywodraeth Cymru fel mater o drefn yn cyflwyno cynigion ar gyfer dadl ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir o dan Reol Sefydlog 29, mae'n anesboniadwy i ni ei bod yn ymatal rhag gwneud hynny ar gyfer memoranda cydsyniad offeryn statudol a osodir o dan Reol Sefydlog 30A. Er y gallai Llywodraeth Cymru ddadlau mai "ychydig iawn o awydd sydd" am ddadl "ar gyfer mesurau sydd fel arfer yn dechnegol eu natur", rydym yn cytuno ag ymateb y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i'r ddadl hon:

> *"Nid y weithrediaeth sydd i benderfynu ar yr awydd i graffu, ar y graddau y mae deddfwriaeth yn dechnegol nac i awgrymu nad oes gan y ddeddfwrfa'r capasiti i graffu'n safonol ar gamau gweithredu'r weithrediaeth".*

Gan fod y mater hwn yn amlwg yn un hirsefydlog, byddwn yn ddiolchgar pe gallem gyfarfod cyn gynted â phosibl i drafod opsiynau ynghylch sut y gellir sicrhau eglurder o ran Rheol Sefydlog 30A.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, a'r Prif Weinidog.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd